# SL(5)732 – Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

O dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae dyletswydd ar Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau nyrsio mewn perthynas â'r lleoliadau clinigol a bennir yn is-adran 25B(3) – sef wardiau cleifion mewnol meddygol acíwt sy'n oedolion a wardiau cleifion mewnol llawfeddygol acíwt sy'n oedolion – i gyfrifo lefelau staff nyrsio, ac i gymryd camau i gynnal y lefelau hynny, ac i roi gwybod i gleifion am y lefelau hynny o staff nyrsio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y sefyllfaoedd y mae'r dyletswyddau o dan adran 25B o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn gymwys iddynt i gynnwys wardiau cleifion mewnol pediatrig.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Dim ond yn Saesneg y mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi eu gosod.

Mae Rheol Sefydlog 15.4 yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau gael eu gosod yn ddwyieithog lle y bo'n rhesymol ymarferol.

Codwyd y pwynt hwn yn ddiweddar mewn perthynas ag offerynnau statudol eraill. Yn ôl yr esboniad a gafwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru, er bod cyfran gynyddol o'r dogfennau hyn yn cael eu gosod yn ddwyieithog, maent yn gorfod blaenoriaethu eu hadnoddau cyfieithu cyfyngedig yn llym iawn ar hyn o bryd, gyda deddfwriaeth a chanllawiau cyhoeddus sy'n ymwneud â Covid-19 a Brexit yn brif flaenoriaeth.

Esboniwyd hefyd eu bod wedi ystyried y Safon berthnasol o ran Safonau'r Gymraeg, a'u bod wedi ystyried y canllawiau a ddarperir gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Chwefror 2021**